Gwirfoddolwr Cefnogi Ymweliadau Cartrefi Gofal

Yn:

Swydd gyffrous, newydd wedi'i dylunio i wneud gwahaniaeth go iawn drwy gasglu preswylwyr a'u teuluoedd neu ffrindiau ynghyd.

Mae angen eich cefnogaeth arnom i hwyluso ymweliadau dan do, a fydd yn cael effaith gadarnhaol ar iechyd a llesiant preswylwyr a'u hanwyliaid.

Beth fyddwn i'n ei wneud fel gwirfoddolwr cefnogi ymweliadau cartrefi gofal?

- Cefnogi'r Cartref Gofal gyda threfniadau i hwyluso ymweliadau
- Croesawu ymwelwyr ar y diwrnod, gan sicrhau eu bod yn cadw pellter, yn gwisgo masgiau ac yn defnyddio diheintydd dwylo fel sy'n briodol
- Tywys ymwelwyr i mewn ac allan o ardaloedd ymweld
- Gweithgareddau eraill sy'n cefnogi ymweliadau didrafferth a diogel.

Rydym yn awyddus i ddenu gwirfoddolwyr sy'n gallu ymroi eu hamser i un neu fwy o sesiynau yr wythnos yn dibynnu ar argaeledd.

Rhoddir hyfforddiant llawn a chefnogaeth barhaus. Mae'r swydd yn amodol arnoch yn gwneud profion llif unffordd yn ôl yr angen.

Am ragor o wybodaeth neu i gofrestru eich diddordeb, anfonwch e-bost at:
carehomevolunteer@agecymru.org.uk

age Cymru
Creu Cymru oed gyfeillgar

Mae Age Cymru yn elusen gofrestredig: 1128436. Mae'n gwmni cyfyngedig trwy warant ac wedi'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr 6837284. Cyfeiriad ein swyddfa gofrestredig Llawr Isaf, Tŷ Mariners, Llys Trident, Heol East Moors, Caerdydd CF24 5TD. ©Age Cymru 2021